

# **Cais am Ddiwygiad Ansylweddol ar ôl i Ganiatâd Cynllunio gael ei Roi**

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

## **1. Manylion yr ymgeisydd**

Nodwch fanylion yr ymgeisydd gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch hefyd rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r cod post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## **2. Manylion yr asiant**

Nodwch fanylion yr asiant gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch hefyd rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r cod post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## **3. Cyfeiriad y safle**

Nodwch gyfeiriad post llawn y safle. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n briodol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir a'r cod post llawn hefyd. Os yw'r cais yn ymwneud â thir agored, disgrifiwch leoliad y tir mor glir ag y bo modd (e.e. 'Y tir y tu ôl i rif 12 - 18 y Stryd Fawr') neu darparwch gyfeirnod grid.

## 4. Cyngor cyn cyflwyno cais

Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn barod i gynnal trafodaethau (gan godi tâl, o bosibl) cyn i ymgeisydd gyflwyno cais swyddogol, er mwyn arwain yr ymgeisydd drwy'r broses. Gall hynny leihau achosion o oedi yn nes ymlaen wrth brosesu'r cais.

Yn ogystal, gall trafodaethau cyn cyflwyno cais eich helpu chi a'r awdurdod cynllunio i nodi agweddau ar eich datblygiad arfaethedig sy'n achosi pryder, fel y bo modd ichi ystyried gwneud newidiadau cyn cyflwyno'r cais. Caiff y cyngor a'r arweiniad a gynigir ichi yn ystod y cyfnod hwn eu rhoi'n ddiwyll. Fodd bynnag, nid ydynt gyfystyr â gwarant nac addewid pendant y bydd eich cais yn cael ei dderbyn.

Os ydych wedi cael cyngor gan y gwasanaeth cynllunio cyn cyflwyno'r cais, nodwch gyfeirnod/dyddiad unrhyw ohebiaeth neu drafodaeth, ynghyd ag enw'r swyddog. Os nad ydych yn gwybod y manylion, nodwch '*Ddim yn gwybod*'.

Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag y bo modd.

## 5. Pwy sy'n gymwys?

Yr unig un a gaiff gyflwyno cais o'r fath yw rhywun sydd â buddiant yn y tir y mae'r diwygiadau ansylweddol yn gysylltiedig ag ef, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran. Dyma'r bobl sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir:

- Rhydd-ddeiliad
- Rhywun â les sy'n para dros 7 mlynedd (fel prif lesddeiliad, is-lesddeiliad neu denant daliad amaethyddol)
- Rhywun sydd â morgais ar y tir
- Rhywun sydd â contract ystad (h.y. opsiwn i gael buddiant cyfreithiol yn y tir neu gontract i brynu'r tir)
- Rhywun sydd â buddiant cyfreithiol yn y mwynau sydd ar y tir, neu oddi tano.

## 6. Aelod o staff/Aelod o'r Awdurdod

Rhaid ichi nodi a yw'r ymgeisydd neu'r asiant yn aelod o staff y cyngor, yn aelod etholedig o'r cyngor, neu'n rhywun sy'n perthyn i aelod o staff neu un o aelodau etholedig y cyngor.

Os yw aelodau etholedig sydd mewn swydd ar hyn o bryd neu swyddogion cynllunio yn cyflwyno eu ceisiadau cynllunio eu hunain, ni ddylent chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu.

At ddibenion y cwestiwn hwn, ystyr 'perthyn i' yw perthyn, drwy waed neu fel arall, yn ddigon agos i sylwedydd teg a deallus ddod i'r casgliad, ar ôl ystyried y ffeithiau, ei bod yn

wirioneddol bosibl na fydd yr unigolyn a fydd yn penderfynu ar y cais ar ran yr awdurdod cynllunio lleol yn ddiuedd.

## 7. Disgrifiad o'ch cynnig

Disgrifiwch y datblygiad a gymeradwywyd, gan ddefnyddio'r disgrifiad yn y llythyr penderfyniad gwreiddiol.

Mae'r diffiniad statudol ar gyfer cais gan ddeiliad aelwyd i'w weld yn Erthygl 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014:

Ystyr **cais gan ddeiliad aelwyd** yw:

- a) cais am newid caniatâd cynllunio sy'n ymwneud â datblygu tŷ annedd presennol, neu â datblygiad yng nghwrtil tŷ annedd o'r fath at unrhyw ddiben sy'n atodol i fwynhau'r tŷ annedd ond nid yw'n cynnwys:
  - cais am newid defnydd, na
  - chais am newid nifer yr anheddau mewn adeilad.
- b) Ystyr tŷ annedd yw adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel un annedd breifat ac nid at unrhyw ddiben arall; er enghraifft, tŷ neu fflat.

## 8. Y diwygiad(au) ansylweddol y gwneir cais amdanynt

Rhowch ddisgrifiad clir o'r diwygiad(au) yr ydych am eu gwneud, gan nodi pam yr ydych am eu gwneud. Dylech ddarparu unrhyw blaniau sydd eu hangen er mwyn dangos y diwygiad(au) arfaethedig, gan sicrhau bod yr hyn sydd i'w weld ar y planiau hynny yn cyfateb i'r disgrifiad ar y ffurflen. Rhaid i unrhyw blaniau a ddarperir fod ar raddfa fetrig a dylai unrhyw fesuriadau a nodir fod yn rhai metrig. Dylid hefyd gynnwys bar graddfa a dangos ym mha gyfeiriad mae'r Gogledd.

## 9. Gofynion Cais am Ganiatâd Cynllunio

Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.

## 10. Datganiad

Llofnodwch eich cais a nodwch y dyddiad arno.

## 11. Manylion cyswllt yr ymgeisydd

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd.

## **12. Manylion cyswllt yr asiant**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr asiant.

## **13. Ymweld â'r safle**

Efallai y bydd y swyddog achos yn gofyn am gael mynd i mewn i'r safle (h.y. y safle lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud). Darparwch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen gwneud apwyntiad. Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag y bo modd.